

Y Farwnes Eluned Morgan AC  
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

XXXX 2019

Annwyl Eluned,

### **Cais am wybodaeth ychwanegol yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor ar 23 Medi 2019**

Diolch i chi, a'ch swyddogion, am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 23 Medi 2019. Roedd yr aelodau'n ddiolchgar i glywed eich barn am strategaeth ryngwladol ddrafft Llywodraeth Cymru a gwaith ar gytundebau masnach yn y dyfodol.

O ystyried y cyfyngiadau amser, ni chawsom gyfle i drafod pob maes yn fanwl, felly byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn, cyn gynted ag y bo'n gyfleus i chi.

### **Strategaeth ryngwladol ddrafft**

Mewn perthynas â'r strategaeth ryngwladol ddrafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut y mae'r perthnasoedd â blaenoriaeth yn ymwneud â thri amcan craidd y strategaeth, a sut y mae'r perthnasoedd â blaenoriaeth yn ymwneud â'r tri diwydiant penodol a nodwyd yn y strategaeth.

### **Swyddfeydd tramor**

O ran gwaith swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa effaith y mae penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio ag anfon swyddogion i gyfarfodydd yr UE yn rheolaidd wedi'i chael ar ei gwaith. Ymhellach, roedd dryswch mewn perthynas â gweithgarwch swyddogion yn y swyddfa hon. A allwch gadarnhau a yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynd i gyfarfodydd sefydliadau'r UE?



## **Masnach**

Ynghylch masnach, gwnaethoch ymrwymiad i rannu â ni gopi o lythyr Ken Skates at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol ynghylch porthladdoedd rhydd.

Mewn perthynas â'r Fforwm Gweinidogol ar Fasnach, a'r Concordat, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r dyddiad y bydd y Fforwm yn cyfarfod gyntaf a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod y Concordat yn cael ei rannu â chi, fel y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, ac y cytunir arno wedi hynny rhwng llywodraethau, cyn i Lywodraeth y DU ddechrau negodiadau masnach â Thrydydd Gwledydd.

## **Y camau nesaf**

O ran camau nesaf y Pwyllgor – roeddwn am roi rhybudd ymlaen llaw i chi o'r ffaith y byddwn yn cynnal seminar ford gron ag arbenigwyr academiaidd ar y strategaeth ryngwladol ddrafft ar 21 Hydref. Yna, byddwn yn ceisio cyhoeddi adroddiad byr yn nodi ein barn a'n casgliadau'n fuan wedi hynny. Rwy'n gobeithio y byddwch yn ystyried unrhyw farn o'r fath cyn cyhoeddi eich strategaeth derfynol yn ddiweddarach eleni.

Yn gywir,

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English*

